TGAU BUSNES

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TGAU Busnes i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TGAU Busnes i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017

Crynodeb Gweithredol

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig i'w Gymeradwyo i'w addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn linc yma.

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes* (2016)[1], a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymhwyster diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (2016)*[1].

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae sylwadau wedi cael eu cyfieithu, lle bo'n briodol, yn unol â iaith yr adroddiad.

Mae canrannau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Cefndir

Caiff y cymhwyster TGAU Busnes ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau TGAU diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Nodau ac Amcanion

Cynigiwyd cyfres o nodau ac amcanion gennym ar gyfer y cymhwyster diwygiedig. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rydym wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i eiriad terfynol y nodau a'r amcanion pwnc er mwyn gwneud y datganiadau yn fwy eglur.

Cynnwys

[1] Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes

Cynigiwyd gennym y dylai'r cynnwys i'w astudio a'i asesu yn y cymhwyster newydd ymdrin â chwe maes allweddol. Rydym wedi cadw'r chwe maes cynnwys allweddol hyn yn y Meini Prawf Cymeradwyo, gan eu hehangu er mwyn nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau penodol i'w cynnwys ym mhob maes yn fanylach.

Sgiliau meintiol

Cynigiwyd gennym y dylid dyfarnu o leiaf 10% o'r marciau asesu sydd ar gael ar gyfer sgiliau meintiol, ac rydym wedi penderfynu y dylid gwneud hynny. O ystyried yr ymatebion, rydym wedi gwneud newid bach i'r rhestr benodol o dechnegau a chyfrifiadau mathemategol y cynigiwyd gennym y dylai dysgwyr allu eu cymhwyso, er mwyn dileu'r gofyniad i gyfrifo'r 'gyfradd adennill gyfartalog'.

Amcanion asesu

Mabwysiadwyd yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt.

Asesu

Fel y cynigiwyd gennym, ni fydd y cymhwyster yn gymhwyster haenog a chaiff ei asesu'n llwyr drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o dri ar ddeg o ymatebwyr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer TGAU Busnes. O'u plith, ymatebodd pedwar cyfranogwr fel unigolion, ymatebodd wyth ar ran sefydliad ac ni nododd un ar ba sail yr oedd yn ymateb. O blith y rheini a ymatebodd ar ran sefydliad, roedd chwech yn cynrychioli ysgolion, roedd un yn cynrychioli coleg addysg bellach ac roedd un yn cynrychioli corff dyfarnu.

Nodau ac amcanion pwnc

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig, gwnaethom gynnig y nodau a'r amcanion pwnc canlynol:

- *Rhaid i fanylebau TGAU Busnes alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:*
  - *mynd i'r afael yn weithredol ag astudio busnes ac economeg i datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar;*
  - *defnyddio agwedd ymholgar a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn ac i adeiladu dadleuon a llunio barn wybodus;*
  - *datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol;*
  - *gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan randdeiliaid gwahanol mewn perthynas â gweithgareddau busnes ac economaidd;*
  - *ystyried i ba raddau y gall gweithgarwch busnes ac economaidd fod yn foesegol a chynaliadwy;*

- *datblygu a chymhwyso sgiliau meintiol sy'n berthnasol i fyd busnes gan gynnwys defnyddio a dehongli data;*
- *cysylltu gwybodaeth a dealltwriaeth â chyfleoedd a sefyllfaoedd busnes go iawn a'u cymhwyso at y cyfleoedd a'r sefyllfaoedd hynny.*

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol i ymatebwyr:

Cwestiwn 1: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc a'r deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer TGAU Busnes yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 1 isod, roedd pawb a ymatebodd i gwestiwn 1 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r nodau a'r amcanion arfaethedig.

Siart 1. Ymatebion i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes.



Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu ar y newidiadau bach canlynol i'w geiriad er mwyn gwella eglurder:

- yn 1.3: defnyddiwyd 'cymhwyso gwybodaeth fusnes' yn lle 'eu'
- yn 1.4: defnyddiwyd 'gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau ar effeithiau busnes ar gymdeithas ehangach' yn lle 'yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan randdeiliaid gwahanol mewn perthynas â gweithgareddau busnes'
- yn 1.5: defnyddiwyd 'a chefnogi datblygiad cynaliadwy' yn lle 'a chynaliadwy'
- yn 1.7: defnyddiwyd 'â chyfleoedd, penderfyniadau a sefyllfaoedd menter a busnes go iawn' yn lle 'â chyfleoedd a sefyllfaoedd busnes go iawn'.

Adlewyrchir y newidiadau hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (2016)*[1].

Cynnwys Pwnc

Meysydd cynnwys allweddol

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig, gwnaethom gynnig y dylai'r cynnwys pwnc ymdrin â'r chwe maes cynnwys allweddol canlynol:

- gweithgarwch busnes;
- dylanwad ar fusnesau;
- gweithrediadau busnes;
- cyllid;
- marchnata;
- ac adnoddau dynol.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 2a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes yng Nghymru?

Fel y dengys Siart 2 isod, roedd y rhan fwyaf (84%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r meysydd cynnwys arfaethedig, ac nid oedd gweddill yr ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 2. Ymatebion i gwestiwn 2a o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes.



Nodwyd y canlynol gan ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig:

- "mae'r 6 maes pwnc yn cwmpasu'r ehangder sydd ei angen ar gyfer busnes"
- "mae angen y newidiadau hyn er mwyn datblygu'r pwnc".

Rydym wedi mabwysiadu'r chwe maes cynnwys arfaethedig. Yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (2016)*[1], rydym wedi cynnwys manylion ychwanegol am y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau penodol i'w cynnwys ym mhob un o'r meysydd cynnwys allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu rhywfaint o'r cynnwys manylach a ddynodwyd gan yr Adran Addysg ar gyfer cymwysterau TGAU Busnes a gynigir yn Lloegr.

Sgiliau meintiol

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig, gwnaethom gynnig y dylid dyfarnu o leiaf 10% o'r marciau asesu a ddyrennir ar gyfer sgiliau meintiol.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 2b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r cymhwyster TGAU Busnes gynnwys gofyniad sylfaenol bod 10% o'r marciau yn cael eu dyfarnu ar gyfer sgiliau meintiol?

Fel y dengys Siart 3 isod, roedd 61% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 31% yn anghytuno â'r cynnig ac nid oedd 8% o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 3. Ymatebion i gwestiwn 2b o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
    - gallai'r cynnwys sgiliau meintiol "achosi problemau hygyrchedd i ddisgyblion llai galluog",
    - byddai pwysoliad uwch o "15-20% ar gyfer sgiliau meintiol" yn well
    - "gallai dynodi 10% leihau'r amser sydd ar gael i addysgu".

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r cynnig. Mae hyn yn ystyried yr ymatebion o'r ymgynghoriad a'r ffaith bod cymwysterau UG a Safon Uwch Busnes hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddyrannu 10% o'r marciau asesu i sgiliau meintiol.

Cyfrifiadau mewn cyd-destun busnes

Ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig, cynigiwyd gennym y dylai'r cynnwys pwnc ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso amrywiaeth o dechnegau mathemategol mewn cyd-destun busnes, gan gynnwys cyfrifo'r canlynol:

- canrannau a newidiadau mewn canrannau;
- cyfartaledd;
- refeniw, costau ac elw;
- cymarebau maint elw gros a maint elw net;
- cyfradd adennill gyfartalog;
- rhagolygon llif arian, gan gynnwys cyfanswm costau, cyfanswm refeniw a llif arian net.

Mewn perthynas â chyfrifiadau mewn cyd-destun busnes, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 2c: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai asesu cyfrifiadau mewn cyd-destun busnes fod yn rhan ofynnol o'r cymhwyster TGAU Busnes?

Fel y nodir yn Siart 4 isod, roedd y rhan fwyaf (75%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 8% yn anghytuno ac nid oedd 17% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 4. Ymatebion i gwestiwn 2c o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes



- Amlinellodd tri o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig rai cafeatau i'w hymateb cadarnhaol, gan nodi bod y gofyniad i gyfrifo'r gyfradd adennill gyfartalog yn elfen gyfrifo ddiangen mewn cyd-destun busnes.

Felly, rydym wedi diwygio'r rhestr o dechnegau a chyfrifiadau mathemategol y mae'n rhaid i ddysgwyr allu eu cymhwyso er mwyn dileu'r gofyniad i gyfrifo'r 'gyfradd adennill gyfartalog'.

Amcanion asesu a phwysoliadau

Gwnaethom gynnig yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig:

Tabl 1. Amcanion asesu a phwysoliadau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig.

Amcan	Gofynion	Pwysoliad
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes	35%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes at amrywiaeth o gyd-destunau busnes	35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion busnes er mwyn dangos dealltwriaeth o weithgarwch busnes, llunio barn resymol a dod i gasgliadau	30%

Mewn perthynas â'r amcanion asesu a'r pwysoliadau, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 3: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig fod yn berthnasol i'r cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru?

Fel y dengys Siart 5 isod, roedd y rhan fwyaf (77%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, ac nid oedd yr ymatebwyr eraill yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

Siart 5. Ymatebion i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes.



- O blith y rheini a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr y "bydd pwysoliadau'r asesiad yn annog myfyrwyr i ddysgu yn hytrach nag adrodd ac mae'r adran werthuso yn ddigonol i'r myfyrwyr mwy galluog gyflawni graddau uwch".

Rydym wedi cynnwys yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig yn y ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (2016)*[1].

Asesu

Cynigiwyd gennym y caiff y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig ei asesu'n llwyr drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig.

Mewn perthynas â'r strwythur asesu, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 4: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig i asesu'r cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru drwy arholiadau yn unig?

Dengys Siart 6 isod, o blith yr 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fod 69% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, bod 23% yn anghytuno ac nid oedd 8% yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 6. Ymatebion i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un y "gall asesiadau diarholiad dynnu sylw oddi wrth addysgu a dysgu'r cynnwys busnes, bydd asesu drwy arholiadau yn unig yn gwella dibynadwyedd y broses asesu".
- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, nododd ymatebwyr y gall asesiadau diarholiad:
  - "ychwanegu at y gallu i osod y busnes mewn cyd-destun ac yn arbennig wrth feithrin sgiliau entrepreneuraidd"
  - "annog myfyrwyr i gymhwyso gwybodaeth drwy sgiliau ymarferol".

Rydym wedi penderfynu y caiff y cymhwyster TGAU Busnes ei asesu'n llwyr drwy arholiadau ysgrifenedig yn unig. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Busnes (2016)*[1].

Haenu

Cynigiwyd gennym na ddylai'r cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig fod yn gymhwyster haenog.

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 5: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig na fydd y cymhwyster TGAU Busnes yn gymhwyster haenog?

Fel y nodir yn Siart 6 isod, roedd 77% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, ac roedd 23% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig.

Siart 6. Ymatebion i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad ar TGAU Busnes.



- Nododd ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cynnig fod "papurau haenog yn gweithredu o blaid ymgeiswyr ar ben uchaf yr haen isaf ond yn gosod ymgeiswyr ar waelod yr haen uwch o dan anfantais. Felly, roedd penderfyniadau o ran pa haen i'w nodi yn effeithio ar ganlyniadau unigolion yn hytrach na gallu'r ymgeiswyr."
- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig "mae'r cymhwyster TGAU presennol yn heriol i ymgeiswyr ar y pen isaf ac nid yw'n eu cymell oherwydd nifer y cwestiynau estynedig y mae angen eu cwblhau, yr iaith a ddefnyddir yn y cwestiynau a'r ffaith bod amseru yn broblem sylweddol i rai".

Rydym wedi penderfynu na ddylai'r cymhwyster TGAU newydd fod yn gymhwyster haenog. Rydym yn disgwyl i'r papurau cwestiynau a gaiff eu cynllunio fod yn hygyrch i'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll y cymhwyster.

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- yr angen i ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau ar-lein
- buddiannau posibl trefnu digwyddiadau DPP a hyfforddiant HMS yn ganolog
- yr angen am bapurau arholiad enghreifftiol a deunyddiau asesu enghreifftiol
- a defnyddioldeb atebion enghreifftiol er mwyn dynodi lefel ddisgwyliedig yr ymateb.

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchodedig

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org